

Innogy Renewables UK Ltd
Fferm Wynt Coedwig Clocaenog
Ymgynghoriad ar Gyllid Buddsoddi Cymunedol
Y Canlyniadau – Crynodeb

Cyflwyniad

Mae Innogy Renewables UK Ltd (innogy) yn adeiladu Fferm Wynt Coedwig Clocaenog, yn y goedwig weithio sy'n cael ei rheoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru gerllaw Dinbych. Mae'r prosiect yn cynnig cyllid buddsoddi cymunedol a allai fod werth £19 miliwn dros oes weithredol y prosiect – hyd at 25 mlynedd yn ôl y disgwyliadau. Bydd hyd at £768,000 ar gael bob blwyddyn, a fydd yn cael ei fynegrifo yn unol â'r gyfradd chwyddiant. Bydd costau gweinyddol yn cael eu talu o'r gronfa. Mae innogy wedi ymgynghori'n eang ynghylch sut dylai'r cyllid hwn gael ei strwythuro a'i ddarparu, a phwrpas y diweddariad hwn yw rhannu rhai o brif ganfyddiadau'r broses hon.

Fel rhan o'r ymgynghoriad roedd innogy wedi paratoi a rhannu holiadur â'r trigolion, wedi cynnal dwy sesiwn galw heibio a digwyddiad rhanddeiliaid strategol er mwyn casglu safbwyntiau ynghylch y canlynol:

- Yr ardal ddaearyddol a fydd yn elwa o'r cyllid
- Beth mae pobl yn ei feddwl yw'r peth gorau am eu hardal leol, beth fydden nhw'n ei wella am eu hardal leol, a beth maen nhw'n meddwl sy'n bwysig i ddyfodol eu hardal leol
- Pwy fydden nhw'n dymuno ei weld yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am ddyrannu cyllid
- Faint maen nhw'n ei wybod am Strategaeth Datblygu Hiraethog a'r Grŵp Llywio, ac a ydyn nhw'n teimlo eu bod yn dal i gynrychioli anghenion eu hardal leol
- Eu syniadau am sut byddai'r cyllid yn gallu cael ei fuddsoddi
- Unrhyw faterion eraill sy'n bwysig yn eu barn nhw

Roedd y gyfradd ymateb i'r ymgynghoriad yn gadarnhaol iawn, a hoffai innogy ddiolch i bawb a gymerodd ran. Cafodd yr holl sylwadau eu hystyried yn fanwl, a byddan nhw'n dal i gael eu hystyried gan innogy, gweinyddwr y gronfa a'r panel grantiau wrth i brosesau ymgeisio'r gronfa gael eu datblygu a'u hadolygu.

Crynodeb o'r canlyniadau

Roedd yr holiadur ar gael rhwng 31/10/2018 ac 17/12/2018. Cafodd ei gyhoeddi ar-lein drwy ddefnyddio Survey Monkey, a chafodd ei anfon i bob cartref a oedd o fewn 6km i ffiniau safle'r fferm wynt. Cafodd yr holiadur hefyd ei hysbysebu drwy restr bostio prosiect Fferm Wynt Coedwig Clocaenog, yn y wasg leol ac ar gyfryngau cymdeithasol.

Cynhaliodd innogy ddwy sesiwn galw heibio a oedd â nifer dda'n bresennol – yn Neuadd y Dref Dinbych ar 12/11/2018 ac yng Nghanolfan Gymunedol Cerrigydrudion ar 13/11/2018. Cafodd y trigolion lleol gyfle i gwrdd â thîm buddsoddi cymunedol innogy, i ofyn cwestiynau ac i rannu eu syniadau am y gronfa.

Ar 11/12/2018, cynhaliodd innogy ddigwyddiad rhanddeiliaid strategol i helpu i sicrhau bod y buddsoddiad sylweddol hwn mor effeithiol â phosib, ac i wneud yn siŵr bod y strwythur cyllido'n cael ei ddatblygu mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r cyd-destun polisi a chyllido ehangach.

Cafwyd 481 o ymatebion i'r holiadur (351 ar-lein a 130 o gopiâu papur). Cafodd 45% o'r ymatebion eu cyflwyno'n Gymraeg. Fe gyflwynodd Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Grŵp Llywio Hiraethog ymatebion unigol i'r ymgynghoriad.

Mae'r safbwyntiau cyffredinol ynghylch ynni adnewyddadwy wedi cael eu nodi, ond dydyn nhw ddim wedi cael eu cynnwys yn y canlyniadau gan nad dyna oedd dan sylw yn yr ymgynghoriad.

Yr ardal ddaearyddol a fydd yn elwa

Roedd yr opsiynau a gynigwyd gan innogy ar gyfer yr ardal a fydd yn elwa yn hollti barn – roedd y sgysiau yn y sesiynau galw heibio yn ategu hyn. Opsiwn 2, a oedd yn seiliedig ar radiws o 12.5km o ffiniau'r safle, lwyddodd i ddenu'r gefnogaeth fwyaf gan yr ymatebwyr, o fymryn (34%). Roedd 21% o'r ymatebwyr yn ffafrio opsiwn 1, a oedd yn seiliedig ar ardaloedd yr holl gynghorau cymuned sydd o fewn 10km i ffiniau safle'r fferm wynt. Roedd 24% o'r ymatebwyr yn ffafrio opsiwn 3, a oedd yn ardal ranbarthol ehangach.

Dewisodd 19% o'r ymatebwyr yr opsiwn "Arall", gan gynnig awgrymiadau eraill ar gyfer dynodi'r ardaloedd a ddylai elwa, a'r ardaloedd y dylid eu cynnwys. Cafwyd awgrymiadau gan 42 o ymatebwyr (9%) a oedd yn perthyn i'r categori y dylid rhoi blaenoriaeth i'r trigolion sy'n byw agosaf at y fferm wynt. Roedd 17 o ymatebwyr (4%) wedi gwneud awgrymiadau a oedd o blaid sicrhau bod ardal wledig eang yn elwa, gan gynnwys ardal Hiraethog i gyd neu hyd yn oed yr holl wardiau gwledig yng Nghonwy a sir Ddinbych. Mynegodd 16 o'r ymatebwyr (3%) bryderon am gynnwys trefi mwy poblog.

"Dim ond y cymunedau y bydd y prosiect yn effeithio'n uniongyrchol arnyn nhw ddylai elwa o'r cyllid – cyfyngu'r ardal i 5 milltir. Ond gellir cyflwyno ceisiadau o'r tu allan i'r ardal honno os oes budd amlwg (e.e. cyflogaeth, sgiliau ac ati) i'r cymunedau y bydd y prosiect yn effeithio arnyn nhw."


"Dylid rhoi blaenoriaeth i'r cymunedau sydd agosaf at y melinau gwynt. Dylid cael dwy haen yn yr ardal – y cymunedau agosaf yn yr haen gyntaf, ac wedyn yr ardaloedd mwy poblog er mwyn sicrhau bod y cymunedau agosaf yn cael blaenoriaeth. Mae perygl gwirioneddol y bydd yr arian yn cael ei lyncu gan yr ardaloedd poblog (y pentrefi)."

"Dylai'r ardal ehangach elwa o'r Ffermydd Gwynt. Mae coridor yr A5 yn arbennig yn gorfod delio â'r traffig anferth sy'n gysylltiedig â'r gwaith adeiladu."

Y pethau gorau am eich ardal leol

Cafwyd sylwadau gan dros draean o'r ymatebwyr (35%) a oedd yn perthyn i'r categorïau golygfeydd a harddwch naturiol, ac ymdeimlad o gymuned. Gwnaeth 12% o'r ymatebwyr sylwadau a oedd yn pwysleisio'r iaith Gymraeg, a gwnaeth 11% sylwadau am natur wledig yr ardal.

Graff 1 – Yn eich barn chi, beth yw'r peth gorau am eich ardal leol? Mae'r data wedi'i gategoreiddio yn ôl thema, a'i gyflwyno yn ôl nifer yr ymatebwyr.



“Lleoliad daearyddol. Ardal wledig sydd heb ei difetha. Mae’n denu twristiaid. Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Yr amgylchedd, y ceiliog du, adar, natur a bywyd gwyllt. Ardal dda i gerdded.”


“Mae’r gymuned yn bwysig iawn i bawb. Mae pobl yn gofalu am ei gilydd ac am yr amgylchedd.”

“Treftadaeth, hanes, diwylliant, cymunedau Cymraeg, cefn gwlad, canolig i ogledd Cymru a heb fod yn rhy anghysbell.”

Beth fyddai’n gwella’ch ardal leol

Cafwyd sylwadau gan tua un o bob pump o’r ymatebwyr (19%) y byddai amwynderau a chyfleusterau cymunedol yn gwella eu hardal leol. Pwysleisiodd tua un o bob saith o’r ymatebwyr (14%) yr economi leol, gan wneud awgrymiadau a oedd yn perthyn i ddau gategori cyfun – cyflogaeth a thwristiaeth. Dyma rai o’r themâu amlwg eraill: cysylltiadau trafniadaeth gwell (11%), seilwaith a ffyrdd gwell (9%), a gwasanaeth band eang a signal ffôn gwell (10%).

Graff 2 – Beth fyddai’n gwella’ch ardal leol? Mae’r data wedi’i gategoreiddio yn ôl thema, a’i gyflwyno yn ôl nifer yr ymatebwyr.



“Mwy o weithgareddau cymunedol i blant, pobl ifanc a theuluoedd, gwell ffyrdd a thrafnidiaeth, tai fforddiadwy i bobl lleol, addysg a gwaith yn ein cymunedau”


“Mwy o gyfleoedd gwaith a hyfforddiant yn lleol ar ôl gadael ysgol. Cefnogaeth i entrepreneuriaid a busnesau newydd. Gwella mynediad at waith.”

“Cyfleusterau cymunedol gwell, e.e. adeiladau. Signal gwell ar gyfer ffonau symudol a chysylltiad cyflymach â’r rhyngwrdd – dydw i ddim yn gallu gweithio o gartref ar hyn o bryd gan fod y rhyngwrdd yn araf iawn.”

Beth sy'n bwysig i ddyfodol eich ardal leol

Graff 3 – Beth sy'n bwysig i ddyfodol eich ardal leol? Mae'r data wedi'i gategoreiddio yn ôl thema, a'i gyflwyno yn ôl nifer yr ymatebwyr.

Pwysleisiodd bron i draean o'r ymatebwyr (29%) yr economi leol, gan wneud awgrymiadau a oedd yn perthyn i dri chategori – cyflogaeth, yr economi leol a thwristiaeth. Gwnaeth 13% o'r ymatebwyr awgrymiadau a oedd yn ymwneud â chadw teuluoedd ifanc yn yr ardal, a'u denu yno. Dyma rai o'r themâu amlwg eraill: ysbryd cymunedol a gweithgareddau i bobl o bob oed (11%), treftadaeth a diwylliant (10%) yn ogystal ag amwynderau / cyfleusterau cymunedol (10%) a oedd yn cynnwys awgrymiadau poblogaidd fel traciau pwmpio / beicio, meysydd chwarae, llwybrau troed, a chynnal a chadw ynghyd â gwella'r adeiladau sy'n bodoli'n barod.



“Cartrefi i bobl ifanc, prosiectau pontio'r cenedlaethau, incwm o dwristiaeth, dathlu'r iaith Gymraeg, diogelu bywoliaeth ffermwyr, swyddi i bobl ifanc.”

“Cadw yr iaith yn fyw cadw busnesau yn llewyrchus cadw pobl yn iach, a mae gallu cymdeithasu yn y cymunedau hyn yn bwysig i gadw problemau mental health i ffwrdd.”

“Hybu twristiaeth i alluogi cyfleuoedd yn yr ardal a swyddi. Tyfu ar y pethau sydd yn bwysig i'r gymuned er mwyn cadw pobol yn yr ardal sicrhau gwellianau sydd angen o fewn y gymuned lleol.”


“Mae cadw ein cenhedlaeth iau yn yr ardal yn bwysig i ddyfodol yr ardal fel rydym ni'n ei hadnabod, a byddai datblygu swyddi sy'n talu'n dda neu sy'n ei gwneud hi'n haws i sefydlu busnes yn help tuag at hynny.”

Gwneud penderfyniadau

Roedd dros 3 o bob 4 o'r ymatebwyr (76%) eisiau gweld y trigolion lleol yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau. Dyma awgrymiadau eraill ar gyfer aelodau'r panel gwneud penderfyniadau a gafodd lawer o gefnogaeth:

- Pobl ifanc (62%)
- Yr Amgylchedd – gweithwyr proffesiynol ym maes cadwraeth (45%)
- Addysg – gweithwyr proffesiynol ym maes sgiliau (37%)
- Datblygu cymunedol – gweithwyr proffesiynol ym maes adfywio (48%)
- Pobl sy'n gweithio mewn mudiadau cymunedol neu mewn elusennau lleol (57%)
- Cynghorwyr Cymuned (56%)

Graff 4 – Pwy ydych chi'n meddwl ddylai fod ar y panel sy'n penderfynu sut mae'r arian yn cael ei wario? Mae'r data'n cael ei gyflwyno yn ôl nifer yr ymatebwyr.



“Dylai fod yn gynrychiolaeth gyfartal o weithwyr proffesiynol lleol sy'n gweithio yn yr ardal, a'r rheini sy'n gweithredu er budd y gymuned. Dylid rhoi mwy o gyfle i'r rheini sydd ddim yn ymwneud â'r cyngor lleol ar hyn o bryd i gydweithio fel grŵp cymysg.”

“Mae angen croestoriad o'r gymuned, gan gynnwys oedran, sgiliau a phrofiad. Dylai aelodau'r panel fod yn byw neu'n gweithio yn yr ardal a fydd yn elwa.”

Strategaeth Hiraethog

Cafodd gwaith Strategaeth Datblygu Hiraethog ei gyflawni yn 2014. Roedd y gwaith wedi cael ei gomisiynu gan Cadwyn Clwyd, Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'n strategaeth ddatblygu ar gyfer adfywio cymunedol ac economaidd yn Hiraethog, yr ucheldir gwledig bob ochr i'r ffin rhwng sir Ddinbych a Chonwy.


Roedd ymwybyddiaeth yr ymatebwyr o Strategaeth Hiraethog yn bur gymysg, gyda 38% o'r ymatebwyr yn dweud eu bod eisoes yn ymwybodol o'r strategaeth, a 46% yn dweud nad oedden nhw'n ymwybodol ohoni. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol bod meysydd gweithredu Hiraethog yn dal yn berthnasol. Roedd yr ymatebwyr yn gadarn o blaid yr holl feysydd gweithredu sydd wedi'u nodi yn y strategaeth, a dyma'r rhai oedd yn denu'r mwyaf o gefnogaeth:

- Mynediad at wasanaeth band eang gwell (59%)
- Cynnal a gwella amgylchedd naturiol yr ardal (59%)
- Tai lleol fforddiadwy i bobl ifanc lleol (57%)
- Galluogi pobl i ddefnyddio a mwynhau amgylchedd naturiol yr ardal (53%)
- Helpu'r genhedlaeth nesaf o fusnesau lleol (52%)
- Trafnidiaeth gymunedol a mynediad at wasanaethau allweddol (51%)

Syniadau eraill

Cafodd amrywiaeth eang o awgrymiadau eu cyflwyno. Yr economi leol oedd yn ymddangos fwyaf, gyda 6% o'r ymatebwyr yn gwneud awgrymiadau a oedd yn perthyn i ddau gategori cyfun – yr economi leol a thwristiaeth. Dyma rai o'r themâu eraill a gafodd eu crybwyll amlaf: cynnwys pobl leol yn yr holl drafodaethau (4%), rhoi blaenoriaeth i bobl leol o ran mynediad at gyllid (4%) a chefnogi prosiectau cymunedol gwirfoddol (3%).

Graff 5 – Syniadau, awgrymiadau neu sylwadau eraill am Gronfa Buddsoddi Cymunedol Fferm Wynt Coedwig Clocaenog, a sut byddai'n gallu cael ei gweinyddu a / neu ei buddsoddi. Mae'r data wedi'i gategoreiddio yn ôl thema, a'i gyflwyno yn ôl nifer yr ymatebwyr.



“Rydw i'n byw mewn ardal o dlodi gwledig. Mae'r cyfleoedd i bobl ifanc yn gyfyngedig, ac felly hefyd eu dyheadau, oherwydd ein diffyg cysylltedd. Byddai'r arian yma'n gallu cael ei ddefnyddio i helpu i gynyddu mynediad a chyfleoedd i'r genhedlaeth nesaf.”

“Mae hi'n bwysig iawn bod pobl o BOB oed yn cael eu cynnwys mewn unrhyw ddatblygiad mewn ardal mor denau ei phoblogaeth. Mae trafndiaeth / band eang yn bwysig dros ben, ac mae cadw cymaint â phosib o fusnesau, neuaddau, tafarndai a siopau lleol ar agor hefyd yn hynod bwysig. Mae ysbryd cymunedol cryf yn yr ardal yma – dylem fanteisio ar hynny!”

“Mae twristiaeth yn ffynhonnell incwm yn yr ardal. Mae gennym lwybrau troed cyhoeddus gwych yn ardal Hiraethog / Dyffryn Clwyd, ond yn anffodus, mae ein system trafndiaeth gyhoeddus i dwristiaid ac – yn bwysicach – i'n trigolion, yn ofnadwy. Does dim bysiau'n mynd i'r pentrefi erbyn hyn. Sut mae pobl ifanc sydd ddim yn gyrru, ac sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, i fod i gyrraedd eu gwaith?”

“Mae'n bwysig bod y trigolion lleol yn cael eu cynnwys yn yr holl drafodaethau.”

“Bydd creu'r Panel iawn sydd ag ystod eang ac addas o arbenigedd yn ganolog i lwyddiant y gronfa. Ni ddylai hyn fod yn seiliedig ar y cynghorau cymuned, nac ar unrhyw grŵp penodol o fuddiannau. Mae angen dyfnder priodol o arbenigedd i sicrhau bod y gronfa'n llwyddo.”

“Proses ymgeisio syml a didrafferth er mwyn i grwpiau bach a mawr allu cael gafael ar gyllid er budd y gymuned.”

“Dylai fod gan y gweinyddwr ddealltwriaeth o’r ardal wledig, a’i fod wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn ffordd a fydd yn dwyn budd i’r gymuned leol.”

Proffil yr ymatebwyr

Pobl rhwng 40 a 65 mlwydd oedd yr ymatebwyr yn bennaf (43%), yna pobl rhwng 20 a 39 oed (21%) a’r rheini dros 65 oed (19%). Dim ond 1% o’r ymatebwyr oedd o dan 20 oed.

Mae bron i dri chwarter yr ymatebwyr (73%) yn byw yn yr ardal ddaearyddol arfaethedig a fydd yn elwa. Roedd y gyfran uchaf o’r ymatebwyr yn dod o sir Ddinbych (49%), ac roedd cynrychiolaeth dda o Gonwy hefyd (29%).

Roedd y rhan fwyaf o bobl yn datgan eu safbwyntiau personol eu hunain yn yr ymateb (64%). Roedd 42 o bobl (9%) yn cynrychioli mudiad gwirfoddol neu gymunedol lleol, a 24 o bobl (5%) yn cynrychioli cyngor cymuned. Dim ond 11 o bobl (2%) oedd yn cynrychioli busnes lleol.

Roedd 240 o ymatebwyr wedi rhoi eu manylion e-bost, ac mae’r rheini wedi cael eu hychwanegu at y rhestr diweddarau ar gyfer cronfa buddsoddi cymunedol a phrosiect Fferm Wynt Coedwig Clocaenog.

Casgliadau a’r camau nesaf

Yr ardal a fydd yn elwa

Mae innogy wedi ystyried yr holl adborth i’r ymgynghoriad yn ofalus, ac wedi gwrandao ar safbwyntiau ynghylch ein cynigion cychwynnol ar gyfer yr ardal a fydd yn elwa. Yn sgil hynny, rydym wedi penderfynu mabwysiadu ardal elwa gyda thri pharth – edrychwch ar y map yn atodiad 1, ac mae hefyd ar gael ar ein gwefan yn www.innogy.com/clocaenogforest.

Parth 1 – “y Parth Lleol â Blaenoriaeth”, sy’n cynnwys ardaloedd y cynghorau cymuned sydd agosaf at Fferm Wynt Coedwig Clocaenog.

Parth 2 – “y Parth Gwledig Ehangach”, sy’n cynnwys yr ardaloedd gwledig ehangach sy’n rhan o ardal strategaeth Hiraethog, ond ddim yn cynnwys yr ardal sydd eisoes yn dod o dan Gronfa Gymunedol Fferm Gwynt y Môr.

Hefyd, gerllaw Parth 2, bydd ardal sy’n gorgyffwrdd ag Ardal Strategaeth Hiraethog / Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr. Dylai unrhyw geisiadau ar gyfer prosiectau unigol yn yr ardal hon gael eu cyflwyno i Gronfa Gymunedol Gwynt y Môr, a bodloni’r meini prawf perthnasol. Fodd bynnag, mae modd cynnwys yr ardal hon mewn unrhyw geisiadau ar draws ardal Hiraethog, ac yn yr achos hwn byddai’r cais cyfan yn cael ei gyflwyno i Gronfa Gymunedol Clocaenog ac yn gorfod bodloni’r meini prawf perthnasol.

Parth 3 – “y Parth Trefi Gwasanaeth”, sy’n cynnwys Dinbych, Rhuthun a Llanrwst.

Bydd hyblygrwydd ar gael o ran sut mae’r cyllid yn cael ei rannu ar draws y parthau, ond gyda’r bwriad na fyddai cais cadarn ar gyfer y Parth Lleol â Blaenoriaeth (1) yn methu ar draul parthau ehangach 2 a 3. I bob pwrpas, y cymunedau agosaf at y safle fydd yn cael y brif flaenoriaeth. Disgwylir y bydd lefel y cyllid a gaiff ei rannu rhwng y parthau yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Mae innogy wedi ymrwymo i ddarparu cronfa hyblyg gyda meini prawf eang, er mwyn iddi allu rhoi sylw i’r hyn sy’n bwysig i’r ardal ar hyn o bryd, ac a fydd yn bwysig iddi yn y dyfodol. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd meini prawf y gronfa’n amrywio ar gyfer pob parth, gyda’r meini prawf ehangaf yn y Parth Lleol â Blaenoriaeth (1).

Ennyn diddordeb pobl ifanc

Dim ond 1% o'r rheini a oedd wedi ymateb i'r holiadur oedd yn bobl ifanc, eto i gyd, roedd pobl ifanc yn ymddangos yn gyson drwy'r ymgynghoriad i gyd. Dywedodd 62% o'r rheini a oedd wedi ymateb y dylai pobl ifanc gael eu cynrychioli ar y panel gwneud penderfyniadau hyd yn oed.

Yn ystod yr haf, bydd innogy yn gwneud gwaith ymgynghori pellach a fydd yn canolbwyntio ar ysgolion a phobl ifanc yn yr ardal a fydd yn elwa. Nod y gwaith hwn fydd annog pobl ifanc i ddweud eu dweud am yr hyn sy'n bwysig yn eu hardal leol, a sut gallai'r gronfa gymunedol wneud gwahaniaeth i bobl ifanc nawr ac yn y dyfodol.

Bydd y canlyniadau'n cael eu rhannu â gweinyddwr y gronfa a'r panel gwneud penderfyniadau, er mwyn sicrhau bod ganddyn nhw ddirnadaeth a dealltwriaeth o safbwyntiau pobl ifanc wrth sefydlu'r gronfa a'i darparu. Bydd innogy yn gofyn i weinyddwr y gronfa sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y panel gwneud penderfyniadau neu, fel opsiwn arall, sefydlu Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc i ategu'r panel gwneud penderfyniadau.

Penodi gweinyddwr

Bydd innogy nawr yn dechrau ar y broses o benodi gweinyddwr y gronfa drwy broses gaffael agored. Bydd holl fanylion y broses hon, a sut gall sefydliadau gymryd rhan ynddi, ar gael yn y wasg leol. Maen nhw hefyd ar gael yn www.innogy.com/clocaenogforest.

Ar ôl cael ei benodi, bydd yn rhaid i'r gweinyddwr gwblhau'r paramedrau terfynol ar gyfer gweithredu'r gronfa, ar sail canlyniadau'r ymgynghoriad a drwy gytuno ag innogy. Bydd hyn yn cynnwys:

- Datblygu meini prawf cyllido ar gyfer pob parth
- Creu prosesau ymgeisio am gyllid
- Recriwtio a rheoli'r panel gwneud penderfyniadau
- Hyrwyddo'r gronfa
- Cefnogi'r ymgeiswyr drwy'r broses ymgeisio